

Llais Llandyrnog Voice

✉ llandyrnognews@gmail.com 🐦 [@LlaisLlandyrnog](https://twitter.com/LlaisLlandyrnog)

Chwefror 2022 – Cyfrol 7– Rhifyn 5

Torri coeden

Roedd hi'n drist ac yn hynod ddiddorol gweld pinwydden fawr yn cael ei thorri y tu ôl i'r eglwys yn ddiweddar. Roedd angen dau ddiwrnod o waith i wneud hyn, gyda chraen a sawl torrwr coed yn gweithio arni. Yn anffodus roedd y goeden, a gafodd ddifrod mawr yn y stormydd diweddar, yn beryglus ac roedd yn rhaid ei thaflu. Roedd gwylio medr David Weyman, Glyn a'r tîm yn brofiad cofiadwy. Y gobaith yw y bydd yr eglwys yn plannu coeden neu ddwy yn ei lle, ond mae'r dirwedd wedi newid yn sylweddol.



Diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi cyfrannu erthyglau i'r rhifyn hwn ac i'r rheini sydd wedi cyfrannu'n hael yn ariannol. Mae'r cyfan yn cael ei werthfawrogi'n fawr.

Pytiau newyddion y pentre

Cydymdeimlwn ...

... â theulu **Andrew Prescott** (92), a fu'n byw ym Mhont Horn am flynyddoedd lawer gyda'i wraig **Doreen** a'i fab **Leslie**. Roedd Andrew yn gweithio yn Ysbyty Gogledd Cymru ac ar ôl iddo ymddeol, byddai'n mynd ar ei feic yn aml o gwmpas yr ardal. Roedden nhw wedi symud i Abergele i fod yn nes at eu teulu.

... â theulu a ffrindiau **Mrs Joan Owen**, gweddwr diweddar Hefin Owen, 2 Hen Ysgol. Bu farw Mrs Owen ym mis Rhagfyr yng Nghartref Nyrsio Llys Meddyg, Dinbych.

... â **Mrs Edith Hughes**, Cwm Tawel. Bu farw ei chwaer, Elizabeth Parry o Gainsborough, Swydd Lincoln ym mis Ionawr.

... â **Huw Williams**, Maes Tyrnog a'r teulu. Bu farw taid Huw, Trevor Williams, brodor o Lanrwst.

Croeso ...

... i'r byd i **Ivy Thomas**, wyres fach **Aled a Jane Thomas**. Dymunwn bob hapusrwydd iddyn nhw yn magu aelod newydd y teulu.

Pen-blwydd hapus i ...

... **Hughie Plumb**, a ddathlodd ei ben blwydd yn 81 yn ddiweddar.

... **Gareth Roberts**, fferm Bod Hyfryd ar ei ben blwydd yn 80, gan ei deulu a'i ffrindiau.

... **Evelyn Weyman**, sydd newydd ddathlu pen blwydd arbennig (ond wnawn ni ddim datgelu pa un!).

... **Gwenan a Meilyr**, Pen y Bryn, ar ddathlu eu pen blwydd yn 18.

Llongyfarchiadau i ...

... **Claudia Howard** ar ei dyweddiad â Stephen West o Scarborough. Merch **Mr a Mrs David Howard** yw Claudia.

... **John Morris** a **Kelly Cumston**, Bwthyn Penisarwaen, ar eu dyweddiad hwythau.

 **Prompt Travel**

Taxi & Private Hire

**4, 8 & 16-seat vehicles
24 hrs 7 days a week**

Incorporating Vale Private Hire

01824 790485

07974 862027

Teithiau Prydlon

 **Tacsi a Hurio Preifat**

Rhifau Ffôn Defnyddiol

Canolfan Gofal Cwsmer Cyngor Sir Ddinbych
— 01824 706101

Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan
i oriau swyddfa — 0300 123 3068

Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)
Riportio baw cŵn 0800 2300 2345

Aelodau'r Pwyllgor:

Ruth Griffith (cadeirydd), Ivan Butler (trysorydd a chysodydd), Catherine Howarth, Anwen Davies (cysodydd), Gwen Butler (cydlynnydd), Bryn Davies (cofnodion), Ann ac Iestyn Jones-Evans (cydlynwyr), Rhian Jones, Rod a Margaret Williams.

Anfonwch eich newyddion a'ch erthyglau at llandyrnognews@gmail.com

Beth sy'n digwydd ym mis Chwefror?

Oedfaon yr Eglwys

St Tyrnog

6 Chwefror – 11.15am, Boreol Weddi
13 Chwefror – 11.15am, Boreol Weddi
20 Chwefror – 11.15am, Boreol Weddi
27 Chwefror – 11.15am, Cymun Bendigaid

St Cwyfan's

6 Chwefror – 9.30am, Boreol Weddi
20 Chwefror – 9.30am, Cymun Bendigaid



Doedd dim Llan Llanast ym mis Ionawr, ond bydd yn ei ôl bawn dydd Sul, 13 Chwefror am 3.30 yn Neuadd y Pentre. Croeso cynnes i bawb – cofiwch ddod ag oedolyn gyda chi, blant!



Bore coffi
Neuadd y Pentre
5 Chwefror
10.00–11.00

Yr elw at Llais Llandyrnog Voice,
eich cylchgrawn newyddion lleol chi
Derbynnir yn ddiolchgar roddion tuag
at stondin cynnyrch cartref
Bydd raffl yn cael ei thynnu

Oriau agor Swyddfa'r Post

Dyddiau Llun, Mawrth, Iau, Gwener

9am–12pm, 2pm–5pm

Dyddiau Mercher, Sadwrn 9am–12.30

01824 790310

Capel y Dyffryn

6ed – 9.45 Cyfarfod Gweddi

13eg – 10.00 Oedfa'r Fro

27ain – 11.00 Y Parchg. Nan Powell Davies

Mae'r Clwb Llyfrau dydd Mawrth yn ei ôl! Bydd yn cyfarfod 8 a 22 Chwefror, 10–11 o'r gloch yn yr Ystafelloedd Coco.

Bydd Cymdeithas Hanes Llandyrnog a Llangwyfan yn cyfarfod yn Neuadd y Pentre nos Fercher, 16 Chwefror am 7.30. Bydd Glynis Shaw yn rhoi sgwrs am erddi hanesyddol yn Sir Ddinbych.



Professional and personal Foot Care in the comfort and privacy of your own home.

Treatments Include:

- ✂ Corn/Callus Removal
- ✂ Diabetic Foot Care
- ✂ Nail Trimming
- ✂ Thickened Nails
- ✂ Athlete's Foot
- ✂ Fungal Nails
- ✂ Cracked Heels
- ✂ Ingrown Toe Nails
- ✂ Verrucae
- ✂ Foot Care Advice



Initial Assessment FREE

01824 735070

07387 583971

dyffrynfootcare@gmail.com

<http://dyffrynfootcare.com>

Dyffrynfootcare

@dyffrynfootcare

Tri lle – Rona Aldrich

Mae pawb sy'n fy adnabod i'n gwybod fy mod i wrth fy modd â'r Eidal. Felly, fydd hi'n fawr o syndod fod y tri lle dwi wedi'u dewis yn y wlad honno. Ond cofiwch, fe allwn i fod wedi dewis tri lle yng Nghymru sydd yr un mor agos at fy nghalon, neu hyd yn oed yn nes at fy nghalon, – ond fe gaiff hynny aros am y tro.

Matera

'*The name's Bond. James Bond.*' Os ydych chi wedi gweld ffilm ddiweddaraf 007, *No Time to Die*, efallai'ch bod chi'n cofio dechrau'r ffilm a'r ceir yn erlid ei gilydd drwy dref ar ochr craig. Mae'r llun isod yn dangos ein hen Morris Minor annwyl ni ar yr un ffordd – ond dipyn yn arafach, wrth gwrs! Heddiw, mae Matera'n boblogaidd iawn gyda thwristiaid, yn enwedig pobl sy'n ymweld â Puglia a'r cyffiniau.



Felly, mae'n anodd credu bod tua hanner poblogaeth Matera, hyd at mor ddiweddar â'r 1950au, yn byw mewn ogofâu. *Sassi* (cerrig) yw'r enw lleol ar y rhain. Roedd yr ardal yn codi cywilydd ar yr Eidal oherwydd tlodi, salwch a nifer mawr y babanod a oedd yn marw yno, a phobl yn byw mewn amgylchiadau gwael iawn

heb olau naturiol, dŵr yn dod o dap, na charthffosiaeth.

Yn 1953, rhoddwyd cynllun ar waith i symud holl boblogaeth y *sassi* i dai newydd. Ni chafodd yr awgrym y dylid cau'r ardal gyfan a'i hanghofio ei gweithredu. Erbyn yr 1980au, dechreuodd cenhedlaeth newydd ymddiddori yn y lle. Archwiliodd archeolegwyr y llywodraeth y safle, a dechreuodd awdurdodau'r ddinas gynnig prydlesi 30 mlynedd yn rhad i denantiaid a oedd yn cytuno i adnewyddu'r ogofau, gydag arbenigwyr ar gadwraeth yn eu goruchwylio. Cafodd y rhai a fu'n byw yn yr ogofâu gynnig i fynd yn ôl iddyn nhw, ond dewisodd y rhan fwyaf beidio gan eu bod wedi dod i arfer â'u cartref newydd a'u gwasanaethau. Ond, fe welodd busnesau'r potensial yn y cynllun.

Daeth Matera yn Safle Treftadaeth y Byd yn 1993, yr enghraifft fwyaf rhagorol, gyfan o anheddiad ogofâu, ac yn Brifddinas Diwylliant Ewrop yn 2019. Mae'r tai, y siopau, y bwytai a'r gwestai yn yr ardal hanesyddol wedi'u torri o'r graig, ac wedi'u hadfer yn hyfryd i ddarparu cyfleusterau hudol, cysurus. Ynghyd â'r amrywiaeth o bensaerniaeth eglwysig fendigedig a'r addurniadau y tu mewn iddyn nhw, mae'n lle ardderchog i dreulio'ch amser.

Morrone del Sannio

Pentref ar ben bryn yn ardal Molise yw Morrone. 'Ble?' Dyna'r ymateb fel arfer pan fyddwn ni'n dweud wrth Eidalwyr, hyd yn oed, ble mae'r tŷ a brynwyd gennym yn 2007. Mae'n rhan anghofiedig o'r wlad ac felly, heb ei difetha ac yn rhan o'r Eidal 'go iawn.

Mae Molise yn ne'r Eidal, ac os tynnwch chi linell o Napoli i arfordir môr Adria, wedyn gyrru'n ôl am ryw 40 munud, dyna ble mae Morrone. Mae'r pentre 2,753 troedfedd uwchben lefel y môr (3,560 tr. yw uchder yr Wyddfa). Termoli yw'r dref fawr agosaf, ac mae ganddi draeth tywod hyfryd a phromenâd deniadol. Mae'r diwydiant pysgota yn ffynnu yno a does dim byd anarferol mewn clywed

bod 'perchennog y bwyta wedi mynd i brynu pysgod'. Daw'r pysgod yn syth o'r môr i'r plât, ac maen nhw'n flasus iawn. Mae cyrchfan sgïo Campitello Matese i'r cyfeiriad arall.

Y prif ddiwydiant yw amaethyddiaeth. Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith o drin y tir yn cael ei wneud â llaw. Yn aml, byddwn yn gweld cerbyd tebyg i *pick-up* yn mynd heibio'r tŷ gyda gwraig y ffermwr yn eistedd mewn trelar ar y cefn, wrth iddyn nhw fynd i dendio'r llysiau yn eu caeau. Yn yr haf, byddwn yn edrych ymlaen at weld y bugail a'i ddefaid yn dod bob dydd wrth iddo'u tywys i fwyta ar dir y prysgoed ac ar unrhyw dir sydd heb ffens o'i gwmpas. Maen nhw'n edrych yn syndod o dda ar y deiet yma. Yn y llun gallwch weld y defaid ar eu ffordd heibio'r tŷ, a'r pentref ar y gorwel.



Ychydig iawn o Saesneg, nag unrhyw iaith arall heblaw am yr Eidaleg, mae'r bobl leol yn ei siarad. Mae gen i grap ar yr Eidaleg, ond mae'n rhyfeddod sut mae'n bosib deall chwifio dwylo a phwyntio at bethau. Ni yw'r unig bobl o Brydain yn y pentref ac rydyn ni wedi cael croeso cynnes ac wedi cael ein derbyn.

Fe aethon ni i siop yr haearnwerthwr. Roedd arwydd ar y drws yn dweud y byddai yn ei ôl mewn deng munud. Roedd y goriadau yn nrws y siop a sawl barbeciw nwy yn rhydd y tu allan iddi. Ac o ran gwasanaeth yn y lle, pan chwythodd ein boeler ar nos Wener, fe alwon ni ein 'dyn hollwybodus' ac erbyn prynhawn dydd Llun, roedd boeler newydd yn ei le.

Fel sawl ardal arall, rydyn ni wedi sylwi bod prisiau wedi codi'n ddiweddar. Fodd bynnag, gallwch gael cinio Sul pedwar cwrs gyda gwin a

choffi am €30, neu pizza corgimychiaid hynod o flasus am €30.

Firenze (Florence)



Mae fy nhrydydd lle yn fwy traddodiadol efallai – y Centro Storico yn Firenze. Rydw i wedi bod yma sawl gwaith ac mae'n plesio bob tro. Yn ffodus, rydyn ni wedi cael hyd i westy sydd lathenni'n unig o'r Ponte Vecchio. Mae'r 'hen bont' hon yn bont fwa o'r oesoedd canol gyda siopau drudfawr yn gwerthu gemwaith, gweithiau celf a chofroddion bob ochr iddi. Mae'n hynod o brysur yn ystod y dydd, ond fin nos neu'n hwyrach ar ôl i'r ymwelwyr am y dydd adael, mae'n ardal hudol i gerdded, breuddwydio a gwyllo'r afon Amo yn llifo oddi tani.

Os ydych chi'n hoffi orielau celf, mae digonedd yn Firenze! Mae casgliad mawr o ddarluniau a cherfluniau gan artistiaid fel Giotto, Botticelli a Caravaggio yn yr Uffizi. Yn y Galleria dell'Accademia mae fy hoff gerflun – Dafydd gan Michelangelo. Mae'r cerflun hwn o farmor gwyn disglair yn 17 troedfedd o daldra ac rwy'n herio unrhyw un sy'n ei weld i beidio â theimlo'i bresenoldeb. Mae 30 copi o'r cerflun ledled y byd. Cafodd y Frenhines Victoria gopi yn anrheg, ond fe gafodd hi gymaint o sioc, rhoddwyd deilen ffigysbren ar y cerflun i beidio â chodi embaras ar neb a fyddai'n edrych arno!

Ar ôl yr holl ddiwylliant yma, beth sy'n well nag ymlacio mewn *gelataria* traddodiadol i fwynhau hufen iâ a gwyllo'r byd yn mynd heibio. Beth am lafant, bergamot a fanila?

Cyflwyno'r Parch. Martin Pritchard

Mor braf ydy fy nghyflwyno fy hun i chi yn y cylchgrawn effeithiol yma sy'n adlewyrchu'r gymuned glos. Mae'n bleser gallu parhau i'ch gwasanaethu chi mor fuan ar ôl i Val ymddeol. Rwyf wedi bod yn ffodus i gydweithio'n agos â Val dros y 15 mis diwethaf o fewn Ardal Genhadu Dinbych. A dweud y gwir, hi roddodd i mi un o'r tri chyfweliad a oedd yn rhan o'r broses i ymuno â theulu'r ardal hon o'r esgobaeth, sef Teulu Asaff. Daeth Val a minnau o'r un ardal hefyd cyn symud yma a gweithio gyda rhai o'r un bobl yn Esgobaeth Bangor.

Mewn sawl ffordd, mae'n anarferol yn y traddodiad Anglicanaidd i olynu rhywun mewn swydd mor fuan ond mae'n synhwyrol ac fel petai mai dyna ydy dymuniad Duw. I gadarnhau hyn, meddyliwch am y cyfnod anodd hwn, a'r lles a ddaw o wybod bod offeiriad yn eich cymuned, heb sôn am fodolaeth Ardal Genhadu Dinbych, y cydweithio rhwng Rebecca a minnau, a datblygiad y tîm o wirfoddolwyr a phobl sydd wedi'u cyflogi.

Rwy'n edrych ymlaen yn arw at ddod i adnabod pobl yn well yn yr eglwys yn ogystal ag yn y capel, ac wrth gwrs, yn y gymuned yn ei chyfanrwydd. Roeddwn i wedi mwynhau'r Llan Llanast Nadolig ac roedd yn braf gweld cymaint o deuluoedd wrth eu boddau yn y digwyddiad trefnus, hwyliog a diogel hwn. Dwi'n edrych ymlaen at yr un nesaf hefyd am 3.30 bawn Sul, 13 Chwefror. Rwy'n siŵr bod pobl eraill yn edrych ymlaen ato hefyd, gan gynnwys y ddau blentyn rydw i a Vicky fy ngwraig yn gofalu amdanyn nhw – fe wnaethon nhw fwynhau'r Llan Llanast Nadolig hefyd.

Mae'r pandemig byd-eang wedi achosi llawer o ddiflastod, ond eto, rydyn ni'n dysgu ganddo fel y dylen ni ddysgu gan holl brofiadau bywyd. Yn rhyfedd ddigon, drwy orfod ymwahanu a chadw pellter er mwyn ein diogelu ein hunain, rydyn ni wedi dysgu pa mor werthfawr yw cysylltu â'n gilydd. Hefyd mae treulio amser gyda'n hanwyliaid wedi'i

werthfawrogi'n fwy hefyd. Penderfynodd Mark Drakeford a'i dîm geisio'n cadw ni'n ddiogel dros y gaeaf. Er mawr lawenydd i nifer o bobl, bydd y cyfyngiadau'n codi, mewn pryd ar gyfer rygbi'r chwe gwlad. 'Gobeithiwn fod y dyfodol yn debyg i'r gorffennol cyfarwydd' – mae'r dywediad hwn yn creu patrymau cyffredin o feddwl a chyflwr dyn. Mae'r gerdd hyfryd hon yn cyfleu'r un peth i'r dim:

Poem for a grandchild

Let no-one hurry her, Lord,

Give her the rare, the incomparable gift of time.

Days to dream, dragonfly days, days when the kingfisher suddenly opens for her a window on wonder.

Let no-one chivvy her, Lord.

Let her meander lark happy through childhood, by fern-curved stream fringed butter yellow with kingcups, by secret ways that paws have worn through the wild.

Give her cuckoo-loud days, and the owls cry by night.

Give her rainbows; show her a nest filled with sky-blue promises; scoop up the sounding oceans for her in a shell.

Let her keep her dreams so she will always turn her face to the light.

Live merrily, love well; hold out ungloved hands to flower and child, be easy with animals, come to terms with time.

Let her keep her dreams, Lord,

Let her riches be remembered happy days, Amen.

Mae'n hyfrydwch i mi wasanaethu Iesu yn y pentre braf hwn, yn nhirwedd wych Dyffryn Clwyd. Cyn dod yn ddiakon ac yn offeiriad, cefais ddau encil ordeinio yng Nghanolfan Ysbrydolrwydd y Jesiwitiaid yn Nhremeirchion. Gallaf gofio edrych ar yr olygfa anhygoel o ben yr ardd, fwy nag unwaith, gan feddwl tybed i ble fyddai fy ngalwedigaeth yn fy nhywys i? Sut allwn i wybod y byddai'n fy arwain i'r ardal

hon? Roedd Duw sy'n ein hanwesu yn gwybod ac mae Duw yn gwybod beth ddaw ohonon ni oll. Yn aml, mae'r proffwyd Jeremeia yn ein hysbrydoli ni fel Cristnogion, y proffwyd a lefarodd eiriau Duw i bobl Duw cyn y trychineb llwyr ym Mabilon ac ar ei ôl. Mae'r geiriau hyn yr un mor wir i ni rwan ag roedden nhw'r adeg honno; nid yn cynnig atebion cyflym fel mae'r byd modern fel petai'n eu mynnu, ond gan ddyfnhau ffydd a'n gwahodd i ddod yn nes at y Duw byw, ac ymddiried ynddo – y Duw sy'n Dad, Mab ac Ysbryd Glân: 'Oherwydd myfi sy'n gwybod fy mwriadau a drefnaf ar eich cyfer,' medd yr ARGLWYDD, 'bwriadau o heddwch, nid niwed, i roi ichwi ddyfodol gobeithiol.' Jeremeia 29: 11.

Rwy'n gobeithio y bydd nifer ohonon ni'n gallu symud ymlaen at y gwanwyn yn llawn gobaith am y cyfan sydd gan Duw ar gyfer y gymuned hon. Bendith Duw arnoch chi a phawb yr ydych yn ei garu, drwy gydol mis Chwefror, ac am byth bythoedd.

Y Parch. Martin Pritchard

Torri record y byd

Dydd Mawrth 25 Ionawr, roedd Urdd Gobaith Cymru'n dathlu'r canmlwyddiant. Dros y blynyddoedd mae'r Urdd wedi darparu gweithgareddau amrywiol – diwylliannol, chwaraeon a chymdeithasol ar gyfer cannoedd o filoedd o blant a phobl ifanc. I ddathlu, ceisiodd yr Urdd, a llwyddo, i dorri dwy Record Byd *Guinness*: y nifer fwya o fideos o bobl yn canu'r un gân a'u huwchlwytho i *Twitter* mewn un awr, a'r nifer fwya o fideos o bobl yn canu'r un gân a'u huwchlwytho i *Facebook* mewn un awr. Y record blaenorol oedd 250 – llwyddodd yr Urdd a'u cefnogwyr uwchlwytho 1176!!

Bydd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn cael ei chynnal ar Fferm Kilford, Dinbych ddiwedd Mai/dechre Mehefin eleni – bydd rhagor o fanylion i ddod yn ystod y misoedd nesa.

Dyma Mabon a Medi yn canu 'Hei Mr Urdd' cyn uwchlwytho'r fideo!



Costau hurio Neuadd y Pentre

O hyn tan ddiwedd mis Mawrth 2022, cewch logi'r neuadd a'r gegin am £28 am ddwy awr. Dim ond i bobl sy'n byw yn y gymuned ac sy'n dymuno trefnu bore coffi i godi arian at elusennau cydnabyddedig y mae'r swm yma'n berthnasol. Disgwylir i'r trefnwyr osod y byrddau a'r cadeiriau, a'u cadw wedyn.

hgweb designs
rydym ni'n creu... we create....
gwefannau - websites!
www.hgwebdesigns.co.uk
01678 520882
07984 511164
Gwefannau proffesiynol, dwyieithog ar gyfer busnesau, sefydliadau ac ysgolion lleol.
Affordable, bilingual and professional websites for local businesses, organisations and schools.
hannah@hgwebdesigns.co.uk

Ysgol Bryn Clwyd

Mae grŵp gofal dydd Ysgol Bryn Clwyd, Little Acorns wedi cael adroddiad arolwg gwych gan Arolygiaeth Gofal Cymru. Miss Ruth Perrin yw'r rheolwr, a barnodd yr adroddiad fod Little Acorns yn amgylchedd ardderchog i blant ddysgu ynddo a chael gofal. 'Ardderchog' oedd dyfarniad yr Arolygiaeth o arweinyddiaeth Miss Ruth.



Cafodd Mr Jason Jones, sydd hefyd yn gweithio gyda Little Acorns, ei ganmol am ei waith yn y ddarpariaeth drwy gefnogi gofal, datblygiad a lles y plant. Cafodd partneriaeth lwyddiannus Little Acorns ac Ysgol Bryn Clwyd ei nodi'n gryfder penodol a chafodd yr ysgol wasanaeth arbennig i ddathlu cyhoeddi'r adroddiad. Mae hwn i'w weld yn llawn ar wefan Arolygiaeth Gofal Cymru.



Rysait

Ceuled lemon

(Y gwreiddiol mewn llawysgrifen ar gefn amlen a oedd wedi'i chyfeirio at 6 Lôn Postws, Dinbych, a'r dyddiad arni oedd 4 Chwefror 1948)

1 lemon

1 wy

2 owns margarîn (50g)

1 owns siwgr (25g)

Gwasgwch y sudd o'r lemon a gratiwch y croen. Curwch yr wy.

Toddwch y margarîn a'r siwgr mewn sosben. Ychwanegwch y croen wedi'i gratio a sudd y lemon a'r wy gyda'i gilydd. Trowch y cymysgedd yn dda a'i fudferwi'n araf am 10 munud.

Bydd hyn yn gwneud hanner pwys o geuled lemon.

Gwen Butler



Llongyfarchiadau calonnog (braidd yn hwyr!) i Cerdd Cydweithredol Sir Ddinbych ar ennill categori Technoleg er Budd yng Ngwobrau Busnes Cymdeithasol Cymru. Heather Powell, Tŷ Capel Isa, Llandyrnog ydi rheolwr-gyfarwyddwr Cerdd Cydweithredol Dinbych (sefydliad nid-er-elw sy'n darparu cyflenwad cerdd o safon), a rheolwr 'Music Mania'. Yn ei rôl fel rheolwr-gyfarwyddwr, mae gan Heather gefnogaeth bwrdd cyfarwyddwyr a rheolwr swyddfa llawn amser, ac mae erbyn hyn hefyd yn ymgynghorydd sefydlu cwmnïau cerdd cydweithredol ar draws y Deyrnas Unedig.

Mae Heather yn chwarae corn bariton a graddiodd o Goleg Cerdd Brenhinol y Gogledd yn 2005. Roedd yn aelod o Fand Pres Cenedlaethol Ieuencid Cymru am flynydd-oedd, ac ar ôl graddio, bu'n aelod o fand milwrol yr Almaen am flwyddyn.

Da iawn Heather a'r tîm, a phob dymuniad da i'r dyfodol!



4 Kinmel Terrace, Llandyrnog
Locally bred and home-killed meat

Hours of business:

Monday — closed

Tuesday–Friday 8am–5:30pm

Saturday 8am–2pm

Deliveries daily throughout the area

Cyngor Sir Ddinbych

Merfyn Parry

Manylion cyswllt:

Ffôn : 07836 208446

E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk

Neu gadewch neges ar Facebook



Troeon trwstan cadw tafarn

'*It Shouldn't Happen to a Landlady*' oedd teitl cyflwyniad a roddwyd i Glwb Probus Dinbych yn ddiweddar. Rhoddodd Sue Kerby a'i gŵr, Brian, sgwrs ddiddorol am hynt a helynt sefydlu'u busnes yn nhafarn y Golden Lion, Llangynhafal.

Fe gawson nhw ddechrau da gan y perchnogion blaenorol, gan i'r rhain adael gwerth £4,000 o chwsgi ar eu holau. Mae Sue, sydd wedi'i hyfforddi yn gogydd *cordons bleu*, yn paratoi bwyd i seiclwyr, cerddwyr, teithwyr ar fysus rhif 76, a phobl leol, yn ogystal â gwneud partïon ar gyfer penblwyddi a phriodasau. Mae'r dafarn hefyd yn darparu llety i ymwelwyr.

Does dim pryddau â sglodion sydd ar y fwydlen, yn bennaf oherwydd nad yw Sue wedi gwneud sglodion ers i'r peiriant ffrio fynd ar dân. Yn ffodus, roedd Brian wedi gorchuddio'r fflamau'n gyflym â blanced diffodd tân, gan arbed difrod mawr i'r adeilad.

Mae'r acer o ardd yn cael ei datblygu ar gyfer gweithgareddau awyr agored, gyda chysgod dan babel mewn un rhan ohoni. Cafodd hen drelar ceffylau Sinclair ei lanhau a'i droi'n far, a gosodwyd cegin fodern newydd. Mae'r ardd flodau yn lle da i ymlacio wrth edrych ar yr olygfa wych a gwyllo'r haul yn machlud ... os yw'r tywydd yn caniatáu hynny, wrth gwrs.



Maes Llan

Tir ar y ffin â Maes Llan, Llandyrnog, Dinbych, Sir Ddinbych, LL16 4HF

Codi 40 anedd, adeiladu mynediad newydd i gerbydau, tirlunio a gwaith cysylltiedig.

Mae cais am fanylion y datblygiad uchod wedi'i chyflwyno i Gyngor Sir Ddinbych, ac mae'r Cyngor wedi ymgynghori â Chyngor Cymuned Llandyrnog. Trafodwyd y mater yng nghyfarfod misol y Cyngor Cymuned a bydd eu barn a'u pryderon i'r Cyngor Sir yn cael eu cyfleu. Nid yw'n sicr eto ai Pwyllgor Cynllunio Sir Ddinbych a fydd yn penderfynu'n derfynol, ynteu'r swyddogion cynllunio.

Mae manylion y cais ar gael ar wefan yr adran gynllunio ac mae cyfle i chi roi eich sylwadau. Mae'r Cyngor Cymuned yn annog trigolion Llandyrnog i gyflwyno'u sylwadau i'r adran gynllunio erbyn 15 Chwefror.



Dewch i ymuno â grŵp cyfeillgar yn Hwb Cymunedol Llysfasi (Coleg Cambria) rhwng Rhuthun a Llandegla ar yr A525. Mae'r cyfarfodydd fel arfer ar y trydydd dydd Sadwrn yn y mis, heblaw am fis Awst, 9.30–16.00. Dewch â chinio gyda chi ac, ar hyn o bryd, mwgwd.

Edrychwch ar ein gwefan, www.spindizzy.net/clwyd ac ar ein tudalen Facebook.

Rydyn ni'n cael sgysiau, gweithdai neu weithiau rydan ni'n eistedd ac yn nyddu a dysgu oddi wrth ei gilydd. Hefyd, yn yr Haf, rydan ni'n arddangos ein gwaith mewn sioeau (pan fydd rheolau Covid yn caniatáu).

Cyhoeddusrwydd cyfarfodydd y Cyngor Cymuned

Roedd hi'n braf gweld y cyhoedd yn cymryd rhan yng nghyfarfod y Cyngor Cymuned nos Fawrth, 22 Ionawr (ynglŷn â'r datblygiad tai arfaethedig ar y ffin â Maes Llan). Ar ddiwedd y cyfarfod, fe fu aelodau'r Cyngor trafod y fantais o gael cyfraniad gan y gymuned, yn enwedig ynglŷn â materion o bwys.

Penderfynwyd trafod hyn yn fwy manwl yn ddiweddarach, ond byddai awgrymiadau gan drigolion Llandyrnog yn dderbyniol iawn.

Yn ystod y pandemig, mae defnyddio Zoom ar gyfer cyfarfodydd rhithiol wedi bod yn fuddiol, gan fod yr aelodau'n gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod o'u cartref neu o'u swyddfa (neu hyd yn oed o'u car os oes yw eu ffôn symudol yn caniatáu hynny). Ond ar y llaw arall, mae'n eithrio'r rheini sydd heb gyfleusterau o'r fath neu'r gallu technegol i ddefnyddio'r rhaglen. Mae cyfarfod mewn ystafell hefyd wedi bod yn heriol, yn enwedig mewn lle mor fach â'r Ystafelloedd Coco.

A oes modd gwella cyhoeddusrwydd y cyfarfodydd? Os felly, sut? Mae'r Cyngor yn cyfarfod ar drydydd nos Fawrth y mis am 7.15 yn yr Ystafelloedd Coco (neu am 7 ar Zoom pan oedd hyn yn angenrheidiol). Mae gwefan

gan y Cyngor Cymuned, www.llandyrnogcommunitycouncil.co.uk, ac ar hon mae holl agendâu a chofnodion cyfarfodydd i'w darllen. Mae eitemau i'w trafod yn gallu amrywio a chyrraedd yn hwyr, felly dydy hi ddim yn bosibl, nac yn ddoeth, gyhoeddi'r agenda yn rhy gynnar. Mae hysbysebu'r cyfarfodydd ar gyfryngau cymdeithasol yn bosibl, ond a ydy hyn yn anfantais i'r rheini sy'n methu gweld Facebook, Twitter a.a.?

Os oes gennych chi unrhyw awgrymiadau neu sylwadau, rhowch wybod i'r Cyngor drwy anfon e-bost at y cler, Bryn Davies (rbrynd1@gmail.com). Cofiwch hefyd y bydd etholiadau'r cynghorau sir a'r cynghorau cymuned ddydd Iau, 5 Mai ac mae cyfle i bawb sefyll ar gyfer y rhain.

Llun y mis

Llun ardderchog arall gan Phil O'Loughlin – barcud coch.



Townsend Supplies

Townsend, Denbigh LL16 3AW

01745 814918

For all farmyard & agricultural accessories & building supplies

- ☞ Tanalised timber
- ☞ Concrete posts
- ☞ Panel fencing
- ☞ Water pipe fittings
- ☞ Water tanks
- ☞ Sand
- ☞ Cement
- ☞ Concrete blocks

Materion a drafodwyd yng nghyfarfod mis Ionawr y Cyngor Cymuned (ar-lein)

- ◆ Cafodd y Cyngor Sir wybod am achos o dipio sbwriel yn anghyfreithlon yn ardal Llangwyfan, ac fe ddeliwyd â'r mater ar unwaith.
- ◆ Mae'r aelodau'n disgwyl cyfarfod yng Nghae Nant â'r Gymdeithas Chwaraeon i weld faint fyddai effaith ymestyn y pafiliwn ar y man chwarae i blant.
- ◆ Trafodwyd a fyddai'n bosibl gosod unrhyw fesurau i arafu'r traffig o gwmpas Pont Clwyd. Byddai'n rhaid i Gyngor Tref Dinbych a Chyngor Cymuned Llandyrnog gydweithio ar hyn gan mai'r afon yw'r ffin rhwng y ddau blwyf.
- ◆ Mae'r biniau olwynion a osodwyd yn answyddogol yng Nghae Nant wedi'u symud oddi yno. Bydd y cyngor hefyd yn cadw golwg ar y parcio – cafwyd gwybod bod dau gar yn parcio dros nos yno.
- ◆ Mae twll dwfn wedi dod i'r golwg yn y ffordd wrth ochr siambr archwilio gyferbyn â'r gwaith trin carthion – y Clerc i gofnodi'r mater gyda Chyngor Sir Ddinbych.
- ◆ Mae angen glanhau'r arosfannau bysiau a'u peintio – y Clerc i drefnu.
- ◆ Cafwyd cadarnhad gan y Cyngor Sir nad oes arian ar gael i gwblhau gosod band eang yn

- yr Ystafelloedd Coco. Mae hyn yn achos siom fawr, gan ystyried bod y rhan fwyaf o'r gwaith wedi'i wneud.
- ◆ Mae D. Plumb wedi cadarnhau ei fod am roi'r gorau dros dro yn gwirfoddoli i hel sbwriel.
- ◆ Mae angen glanhau'r cwteri rhwng Rhiwbebyll Isaf a'r fynedfa i MHC gan eu bod nhw'n llawn nodwyddau pinwydd o goeden sydd wedi dod i lawr. Y Clerc i gofnodi'r mater gyda'r Cyngor Sir.
- ◆ Materion cynllunio a drafodwyd:
 - ◆ Cais rhif 18/2021/1031 – defnyddio tir i osod pum uned glampio moethus yng Nghae'r Fedwen.
 - ◆ Cais rhif 18/2021/1260 – Codi 40 annedd, adeiladu mynediad newydd i gerbydau, tirlunio a gwaith cysylltiedig. Tir ar y ffin â Maes Llan, Llandyrnog (daeth dau aelod o'r cyhoedd i'r cyfarfod i drafod yr eitem hon).

James Davies, AS Dyffryn Clwyd

james.davies.mp@parliament.uk

Swyddfa'r etholaeth: 01745 888920

Swyddfa San Steffan: 0207 2194606

Ysgol Llandyrnog, tua 1948



CARPET SUPPLY
Home Choose Carpets
FREE Estimates
CARPET FITTING
Own Carpets Fitted
Carpet Refitting Service
CARPET CLEANING
Call Andy
07900 907253
wetordrycarpetcleaning.com